

Carbon Monocsid a Diogelwch Nwy



Beth yw carbon monocsid?

Nwy gwenwynig sydd heb liw, arogl na blas ydy carbon monocsid (CO), ac mae'n cael ei gynhyrchu pan fydd tanwyddau sy'n seiliedig ar garbon (gan gynnwys nwy, olew, pren, petrol a glo) yn cael eu llosgi'n rhannol.

Oherwydd nad ydych chi'n gallu ei weld, ei flasgu na'i arogl, mae'n hynod beryglus ac mewn rhai amodau, mae'n gallu lladd yn gyflym a heb rybudd.

Symptomau gwenwyn carbon monocsid



Cur Pen



Cyfog



Pendro



Prinder anadl



Cwmpo neu lewygu



Mynd yn anymwybodol

Arwyddion o CO

- Dylai'r fflamau ar y rhan fwyaf o gyfarpar gwresogi fod yn las ac yn bendant. Dylai fflamau melyn neu oren gael eu gwirio gan rywun proffesiynol
- Edrychwch am staeniau, huddygl neu golli lliw ar gyfarpar
- Cadwch olwg am fwy o ddŵr yn cyddwyso
- Y golau peilot yn diffodd yn aml

Os ydych chi'n bryderus y gall fod CO yn eich cartref, neu'n sylwi ar symptomau gwenwyn CO, cysylltwch â'r Gwasanaeth Argyfwng Nwy Cenedlaethol ar **0800 111 999** ar unwaith.

Sut i gadw'n ddiogel rhag peryglon CO

- Sicrhewch fod cyfarpar olew a nwy naturiol yn cael eu gwirio'n flynyddol gan weithiwr proffesiynol cymwys
- Gosodwch larwm sain ar gyfer carbon monocsid a dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr bob amser
- Profwch eich larwm carbon monocsid yn rheolaidd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr a newidiwch y batris/larwm yn ôl yr angen
- Sicrhewch fod digon o awyru ar gyfer cyfarpar a pheidiwch â rhwystro tyllau awyr
- Diffoddwch y cyfarpar a cheisiwch gymorth ar unwaith os ydych chi'n amau bod CO yn bresennol neu os bydd eich larwm CO yn seinio
- Peidiwch byth â dod â barbeciw neu wresogydd symudol i mewn i ofod caeëdig heb awyru digonol

Dilynwch y chwe cham yma os byddwch chi'n arogli nwy:

- | | |
|--|---|
| ✓ Agorwch ffenestri a drysau i helpu i awyru'r nwy | ✗ Peidiwch ag ysmegu na defnyddio unrhyw fflamau agored |
| ✓ Diffoddwch y cyflenwad nwy wrth y mesurydd a gnewch yn siŵr fod unrhyw gyfarpar nwy wedi'i ddiffodd | ✗ Peidiwch â chyffwrdd ag unrhyw switch trydan. Gallai cynnau neu ddiffodd switch danio nwy sydd wedi gollwng |
| ✓ Ffoniwch y Rhif Argyfwng Nwy Cenedlaethol ar 0800 111 999. Mae'r llinellau ar agor 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn | ✗ Peidiwch â mynd i mewn i seler os byddwch chi'n arogli nwy, hyd yn oed os ydy'ch mesurydd nwy yn y seler |



Supported by



 thinkco@gassafecharity.org.uk

 <http://www.gassafecharity.org.uk>

Charity No: 1131987



Welsh